# Arholiad UG Uned 1 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant: Hybu iechyd a llesiant

## Strategaethau Llywodraeth Cymru i hybu iechyd, llesiant a gwydnwch da (manyleb 2.1.2 (c))

**Gofal Iechyd Darbodus (2013):** mae'r model hwn wedi'i anelu at ddarparu gofal iechyd i gyd-fynd ag anghenion ac amgylchiadau defnyddwyr y gwasanaeth. Mae hyn yn atal unigolyn rhag derbyn gofal aneffeithiol nad yw er budd iddo, sydd yn ei dro yn atal gwastraff a niwed. Yr egwyddorion yw:

- **mae'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn Bartneriaid Cyfartal drwy gydgynhyrchu**
- **blaenoriaethu gofal i'r rhai sydd â'r anghenion iechyd mwyaf yn gyntaf**
- **gwneud yr hyn sydd ei angen a pheidio â gwneud niwed**
- **lleihau amrywiad amhriodol drwy ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth.**

**Mwy na geiriau (2012):** nod y strategaeth hon oedd dangos bod **iaith yn chwarae rhan bwysig yn ansawdd y gofal.** Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod diogelwch, urddas a pharch siaradwyr Cymraeg yn ganolog i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal plant yn Gymraeg. Mae gwasanaethau a ddarperir ym mamiaith unigolyn yn golygu nas effeithir ar ansawdd y gofal. Un egwyddor allweddol yw'r **Cynnig Gweithredol**, sy'n sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n awtomatig yn iaith ddewisol unigolyn heb iddyn nhw orfod gofyn amdano. Y darparwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am hyn; ni ddylen nhw dybio bod pob siaradwr Cymraeg yn siarad Saesneg beth bynnag. Mae gan **Gomisiynydd y Gymraeg** y pwerau i ymchwilio i gŵyn bosibl o ddiffyg cydymffurfio ac i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru.

Mae **Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018):** yn gosod gweledigaeth tymor hir ar gyfer y dyfodol o gael dull system gyfan wedi'i hintegreiddio o weithredu o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac ar atal salwch:

1. **Dylai gwasanaethau gefnogi unigolion i gadw'n iach**, nid dim ond eu trin pan fyddan nhw'n sâl.
2. **Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn:** gall defnyddwyr gwasanaeth ac anwyliaid ddarganfod beth sydd orau iddyn nhw a chytuno ar sut i wireddu hynny.
3. **Dull o weithredu yn y gymuned:** darparu mwy o wasanaethau y tu allan i ysbytai, yn agosach i'r cartref neu gartref (mae hyn yn lleihau rhestrau aros am driniaeth a'r amser a dreulir yn yr ysbyty, gan arwain at fwy o bobl yn cael eu gweld a'u trin yn gyflymach).
4. **Defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a'r meddyginiaethau diweddaraf.** Mae'r Cynllun yn cael ei gyflawni gan 7 Bwrdd Iechyd Lleol y GIG; 22 o Awdurdodau Lleol; sefydliadau ategol ychwanegol; 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – sefydliadau partner llywodraeth leol, y GIG, a sefydliadau gwirfoddol y trydydd sector yw'r rhain sy'n cydweithio ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol – a chronfa £100 miliwn a ddyrannwyd.

**Mae'r canlyniadau cyffredinol allweddol yn cynnwys:**

- gwella iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru; cyfraddau clefydedd is (salwch) a marwoldeb (marwolaeth)
- gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell a mwy hygyrch
- statws gwerth uwch i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol
- gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwdfrydig a chynaliadwy.